Enw



DARLLENWCH
Ioan 3: 1-16



ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 3: 16

# Gwers 3 Iesu'n cwrdd â dyn yn y nos

Bob blwyddyn, rydyn ni wrth ein bodd yn dathlu'n pen-blwydd. Mae'n hwyl cael cardiau a phresantau! Efallai y cawn ni barti a chacen â chanhwyllau arni! Yn y Darlleniad hwn o'r Beibl, mae Iesu'n esbonio sut y gallwn ni gael ein "geni eto" neu ein "geni o'r newydd".




**C Darllenwch adnod 1 ac ysgrifennu enw'r dyn yr oedd Iesu'n siarad ag ef.**

Ei enw:

**Ysgrifennwch un ffaith amdano.**

Roedd yn:

2

Wrth siarad â'r dyn, dywedodd Iesu sawl gwaith ei bod yn rhaid i ni gael ein "GENI ETO" er mwyn bod yn rhan o "Deyrnas Dduw".

**C Copïwch o'r Beibl unrhyw UN frawddeg lle mae Iesu'n dweud hyn. (Mae gennych sawl brawddeg i ddewis ohonynt).**

2

Doedd Nicodemus ddim yn deall yn iawn! A oedd Iesu'n golygu ei bod yn rhaid iddo fod yn fabi bach eto a chael ei eni fel y gwnaeth y tro cyntaf?

**C Ysgrifennwch rif yr adnod lle'r oedd Nicodemus yn sôn am y broblem hon.**

Adnod

1

Mae'r syniad hwnnw'n anghywir! Beth felly oedd Iesu'n ei olygu wrth ddweud "geni o'r newydd"? Cawn ein geni y tro cyntaf ar DDECHRAU EIN BYWYD.
Pan gawn ein geni o'r newydd, rydym yn cael BYWYD NEWYDD. Mae'r bywyd hwn yn wahanol i'r bywyd naturiol a gawn pan gawn ein geni'n fabanod.

**C Pa air yn adnod 16 sy'n disgrifio'r bywyd newydd hwn?**

1

Felly mae cael ein "GENI O'R NEWYDD" yn golygu cael BYWYD DUW. Mae hwn yn fywyd gwell ac nid yw byth yn dod i ben. Mae Duw yn ei gynnig i ni fel rhodd am ddim. (Rhufeiniaid 6:23)

Mae Duw yn cynnig bywyd tragwyddol i ni gydag UN amod. Mae adnodau 15 ac 16 yn dweud beth yw'r amod hwnnw.

**C** **Ysgrifennwch yn y blwch beth y mae Duw yn disgwyl i ni ei wneud.**

1

Ydych chi'n cofio'r stori yn yr Hen Destament y soniodd Iesu wrth Nicodemus amdani? (Darllenwch hi eto yn Numeri 21: 4-9). Cododd Moses neidr bres ar bolyn. Roedd yr Israeliaid, a oedd yn marw ar ôl cael eu brathu gan nadroedd, yn cael BYWYD NEWYDD os oedden nhw'n edrych ar y sarff bres. Heddiw, gan fod Iesu wedi cael ei godi ar y Groes, cawn ni FYWYD TRAGWYDDOL (hynny yw, cawn ein geni o'r newydd) os edrychwn arno gan gredu ynddo â'n holl galon.

**C** **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

3

# CROESAIR

**Atebwch y cliwiau sy'n dod o'r Darlleniad o'r Beibl.**

**Cliwiau i Lawr**

1. Daeth Nicodemus at Iesu yn y _ _ _.

2. Galwodd Iesu ei hunan yn _ _ _  _  _ _ _. (3 gair)

4. Carodd Duw y _ _ _.

5. Dywedodd Iesu ei fod wedi esgyn i'r _ _ _ a disgyn o'r _ _ _.

6. Galwodd y dyn Iesu yn _ _ _ _ _.

**Cliwiau ar Draws**


1. Enw'r dyn a ddaeth at Iesu.

3. Rhaid i bobl gael eu geni o'r _ _ _ _ _ _ i gael mynd i Deyrnas Dduw.

5. Gair arall am sarff.

7. Dywedodd Iesu fod yr Ysbryd yn debyg i'r _ _ _ _ _.

8. Dywedodd Iesu fod Duw'n caru'r byd gymaint nes iddo roi ei unig _ _ _.




10

cyfanswm